



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3
Legislation Committee No. 3**

**Dydd Mercher, 3 Chwefror 2010
Wednesday, 3 February 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Mesur Arfaethedig Ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)—Cyfnod 2: Ystyried
Gwelliannau
Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure—Stage 2: Consideration of
Amendments

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal,
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Peter Black	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Christine Chapman	Llafur Labour
William Graham	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Helen Mary Jones	Plaid Cymru The Party of Wales
David Lloyd	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Joyce Watson	Llafur Labour

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Neil Howard	Pennaeth Rheoli Cynlluniau, Llywodraeth Cynulliad Cymru Head of Scheme Management, Welsh Assembly Government
Elin Jones	Aelod Cynulliad, Plaid Cymru (y Gweinidog dros Faterion Gwledig) Assembly Member, The Party of Wales (the Minister for Rural Affairs)

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Fay Bowen	Clerc Clerk
Gwyn Griffiths	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Ruth Hatton	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Carys Jones	Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Members' Research Service
Owain Roberts	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 8.59 a.m.
The meeting began at 8.59 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **David Lloyd:** Croeso ichi i gyfarfod diweddaraf Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Pwrpas y cyfarfod yw ymdrin â'r gwelliannau i'r Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru). Croeso i'r Gweinidog, Elin Jones, sef yr Aelod sy'n ymdrin â'r mater hwn. Mwy am hynny maes

David Lloyd: I welcome you to the latest meeting of Legislation Committee No. 3 in the National Assembly for Wales. The purpose of the meeting is to deal with the amendments to the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure. I welcome the Minister, Elin Jones, who is Member dealing with this matter. More about that in due

o law. Croesawaf fy nghyd-Aelodau a'r swyddogion i'r cyfarfod, a hefyd aelodau'r cyhoedd sy'n llifo i mewn i'r oriel gyhoeddus wrth inni siarad. Os bydd larwm tân, dylai Aelodau adael yr ystafell drwy'r allanfeydd tân penodol a dilyn cyfarwyddiadau'r tywyswyr a'r staff. Nid ydym yn disgwyl prawf y bore yma.

course. I welcome Members and officials to the meeting, and also members of the public who are flowing into the public gallery as we speak. If the fire alarm sounds, Members should leave the room through the specified fire exits and follow the instructions of the ushers and staff. We are not expecting a drill this morning.

[2] Dylai pawb ddiffodd ffonau symudol, galwyr a 'mwyar duon' gan eu bod yn amharu ar yr offer darlledu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu'n ddwyieithog, fel y gwyddoch. Mae clustffonau ar gael ar gyfer clywed cyfieithiad ar y pryd, a gellir addasu lefel y sain arnynt ar gyfer pobl sy'n drwm eu clyw. Mae'r cyfieithiad ar y pryd ar gael ar sianel 1, ac mae'r darllediad gair am air ar sianel 0. Peidiwch â chyffwrdd y botymau ar y microffonau, oherwydd gall hynny amharu ar y system, a sicrhewch fod golau coch yn disgleirio ar y microffon cyn ichi ddechrau siarad.

Everyone should switch off their mobile phones, pagers and BlackBerrys as they interfere with the broadcasting equipment. The National Assembly for Wales operates bilingually, as you know. Headsets are available to receive simultaneous translation, and they can also be used to amplify the sound for those who are hard of hearing. The simultaneous translation is on channel 1, and the verbatim is on channel 0. Do not press the buttons on the microphones, because that can affect the system, and ensure that the red light shows on the microphone before you start to speak.

9.00 a.m.

**Mesur Arfaethedig Ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)—Cyfnod 2:
Ystyried Gwelliannau
Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure—Stage 2: Consideration of
Amendments**

[3] **David Lloyd:** Dylai fod gan yr Aelodau gopi o'r Mesur arfaethedig, rhestr o'r gwelliannau wedi'u didoli a'r ddogfen grwpio gwelliannau er mwyn eu trafod. Mae rhestr y gwelliannau wedi'u didoli yn cynnwys yr holl welliannau a gyflwynwyd, sydd wedi'u didoli yn y drefn y maent yn ymddangos yn y Mesur arfaethedig. Caiff yr Atodlenni eu hystyried gyda'r adrannau perthnasol sy'n eu cyflwyno. Felly, yn ein cyfarfodydd, byddwn yn ystyried y gwelliannau yn y drefn a ganlyn: yn gyntaf, adrannau 1 i 3, yna Atodlen 1, adrannau 4 a 5, Atodlen 2, adrannau 6 i 19, adrannau newydd, ac, yn olaf, y teitl hir. Gobeithiaf fod hynny'n glir i bawb gan y byddaf yn gofyn cwestiynau yn nes ymlaen.

David Lloyd: Members should have a copy of the proposed Measure, a marshalled list of the amendments, and the document outlining the grouping of amendments for discussion. The marshalled list of amendments contains all the amendments that have been tabled in the order in which they relate to the proposed Measure. Schedules will be considered with the relevant sections that introduce them. Therefore, in our meetings, we will follow this order: first, sections 1 to 3, followed by Schedule 1, sections 4 and 5. Schedule 2, sections 6 to 19, new sections, and, finally, the long title. I hope that that is clear to everyone, because I will be asking questions later.

[4] Gallwch weld o'r rhestr grwpio fod y gwelliannau wedi'u grwpio er mwyn hwyluso'r drafodaeth, ond y rhestr o welliannau wedi'u didoli sy'n pennu'r drefn

You will see from the groupings list that the amendments have been grouped in order to facilitate the discussion, but it is the marshalled list that determines the order in

y cânt eu galw a'u cynnig. Bydd angen i Aelodau ddilyn y ddau bapur, ond byddaf yn rhoi gwybod i Aelodau pan fyddaf yn galw arnynt a ydynt yn cael eu galw i siarad fel rhan o'r drafodaeth ynteu i gynnig eu gwelliannau er mwyn sicrhau bod penderfyniad yn cael ei wneud.

[5] Ceir un drafodaeth am bob grŵp o welliannau. Byddaf yn galw ar y sawl a gynigiodd y gwelliant cyntaf yn y grŵp i gynnig y gwelliant cyntaf a siarad am hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp. Yna, byddaf yn galw ar y siaradwyr eraill, gan gynnwys yr Aelodau eraill sy'n cynnig gwelliannau yn y grŵp hwnnw, ond ni ddylent gynnig eu gwelliannau ar yr adeg hon. Dylai Aelodau nad oes ganddynt welliant yn y grŵp ond sy'n dymuno siarad nodi eu bod am siarad yn y ffordd arferol. Byddaf yn galw ar y Gweinidog i siarad ar bob grŵp. I ddod â phob trafodaeth i ben, byddaf yn galw ar y sawl a gynigiodd y gwelliant cyntaf yn y grŵp i ymateb.

[6] Nid wyf yn bwriadu caniatáu ymyriadau ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol—ni fydd yr un o'r rheini yn codi y bore yma. Mae hynny er mwyn sicrhau bod pawb yn canolbwyntio'n briodol ar y drafodaeth. Fodd bynnag, caiff pob Aelod gyfle i siarad yn y drafodaeth am bob grŵp.

[7] Yn dilyn y drafodaeth am grŵp, byddaf yn cadarnhau bod yr Aelod a gynigiodd y gwelliant cyntaf yn dal i ddymuno pwyso am benderfyniad. Os nad yw'n dymuno gwneud hynny, gall ef neu hi geisio cytundeb y pwyllgor i dynnu'r gwelliant yn ôl. Os na chaiff ei dynnu'n ôl, byddaf yn gofyn a ddylai'r gwelliant cyntaf gael ei dderbyn ai peidio. Fy nod yw sicrhau bod yr holl bleidleisiau yn cael eu cofnodi fel bod enwau'r rhai sy'n pleidleisio o blaid, yn erbyn, neu sy'n ymatal, yn glir.

[8] Galwaf ar gynigwyr y gwelliannau eraill ym mhob grŵp i'w cynnig ar yr adeg briodol, yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli. Os nad ydych am gynnig eich gwelliant, dylech nodi hynny'n glir pan gaiff y gwelliant ei alw.

[9] Er gwybodaeth, dim ond aelodau'r pwyllgor hwn a gaiff cynnig gwelliannau.

which they are called and moved. Members will need to follow both papers, but I will advise Members when I call on them whether they are called to speak as part of the discussion or to move their amendments, to ensure that a decision is made.

There will be one discussion on each group of amendments. I will call on the person who proposed the first amendment in a group to move that amendment and to speak to that and the other amendments in the group. Then, I will call on other speakers, including Members who have proposed the other amendments in that group. However, they should not move their amendments at that point. Members who do not have an amendment in the group but who would like to speak should indicate their desire to do so in the usual way. I will call on the Minister to speak on each group. To conclude each discussion, I will call on the person who moved the lead amendment to respond.

I do not intend to allow interventions except under exceptional circumstances, which will not happen today. That is to ensure that everyone is appropriately focussed on the discussion. However, every Member will have an opportunity to speak in the discussion on every group.

Following the discussion on a group, I will confirm whether the Member proposing the lead amendment wishes to press for a decision. If not, he or she may request the agreement of the committee to withdraw the amendment. If it is not withdrawn, I will ask whether the first amendment should be agreed. My aim is to ensure that all the votes are recorded so that the names of those who vote in favour of, against, or who abstain are clear.

I will call on the proposers of other amendments in each group to move them at the appropriate time, in line with the marshalled list. If you do not wish to move your amendment, you should indicate that clearly when it is called.

For your information, only committee members are allowed to move amendments.

Byddaf innau, fel y Cadeirydd, yn cynnig gwelliannau ar ran y Gweinidog.

I, as Chair of the committee, will move amendments on behalf of the Minister.

[10] Bydd Aelodau'n ymwybodol mai'r unig ffordd o drafod adran o'r Mesur arfaethedig yw cyflwyno gwelliant iddi. Os na chyflwynir gwelliant i adran, bernir ei bod wedi'i derbyn. Bydd hynny'n wir hefyd am unrhyw adrannau y gwrthodir y gwelliannau a gyflwynwyd iddynt. Byddaf yn cyhoeddi pa adrannau sydd wedi'u derbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

Members will be aware that only those parts of the proposed Measure to which an amendment has been tabled are open to discussion. If an amendment is not tabled to a section, it will be deemed to have been agreed. That also applies to any sections to which amendments have been rejected. I will announce which sections have been agreed at the end of the meeting.

[11] Bydd cyfle arall i gyflwyno gwelliannau i unrhyw adrannau na fyddant wedi'u gwaredu heddiw. Er mwyn gallu ystyried gwelliannau yn ystod cyfarfod yr wythnos nesaf—os rhaid cynnal cyfarfod o gwbl—bydd angen eu cyflwyno erbyn 6 p.m. heddiw. A oes unrhyw gwestiynau gan fy nghyd-Aelodau?

There will be another opportunity to table amendments to any sections that are not disposed of today. To allow us to consider amendments at a meeting next week—if such a meeting is required—they will need to be tabled by 6 p.m. today. Are there any questions, colleagues?

[12] **Peter Black:** It is clearer when the Presiding Officer explains it.

Peter Black: Mae'n gliriach pan fydd y Llywydd yn ei esbonio.

[13] **David Lloyd:** Diolch, Peter.

David Lloyd: Thank you, Peter.

Gwelliannau Technegol a Chanlyniadol (Gwelliannau 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11)
Technical and Consequential Amendments (Amendments 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11)

[14] **David Lloyd:** Y grŵp cyntaf o welliannau yw grŵp 1, sef gwelliannau 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11. Mae'r grŵp hwn o welliannau yn ymwneud â gwelliannau technegol a chanlyniadol. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 1, sydd ar dudalen 1 y rhestr o welliannau wedi'u didoli. Weinidog, a hoffech i welliant 1 yn eich enw chi gael ei gynnig?

David Lloyd: The first group of amendments is group 1, which are amendments 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11. This group of amendments is in regard to technical and consequential amendments. The lead amendment is amendment 1, which is found on page 1 of the marshalled list. Minister, would you like amendment 1 in your name to be moved?

[15] **Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Hoffwn, Gadeirydd.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): Yes, I would, Chair.

[16] **David Lloyd:** Felly, cynigïaf welliant 1 yn enw Elin Jones. Galwaf ar y Gweinidog i siarad am welliant 1 ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

David Lloyd: I move amendment 1 in the name of Elin Jones. I call on the Minister to speak to amendment 1 and to the other amendments in the group.

[17] **Elin Jones:** A ydych chi am imi siarad am y gwelliannau i gyd?

Elin Jones: Do you want me to speak to all the amendments in the group?

[18] **David Lloyd:** Ydw, os gwelwch yn dda.

David Lloyd: Yes, please.

[19] **Elin Jones:** Mae'r rhan fwyaf o

Elin Jones: Most of the amendments in this

welliannau yn y grŵp hwn yn welliannau technegol ac yn gwella cyflwyniad y Mesur arfaethedig. Maent hefyd yn gwaredu unrhyw amwysedd posibl sydd yn y Mesur arfaethedig. Mae'r gwelliant cyntaf, fel y gwelwch, yn berthnasol yn y Saesneg yn unig—nid oes gwelliant cyfatebol yn y Gymraeg—ac ychwanegu'r lythyren 'A' yn unig a wneir. Mae gwelliant 4 yn ymwneud â dileu'r term 'preifat', er mwyn egluro nad oes gwahaniaeth rhwng tŷ sy'n breifat neu fel arall. Felly, yr ydym yn dileu'r term 'preifat' yn llwyr. Unwaith eto, er mwyn osgoi amwysedd, yr ydym, yng ngwelliant 5, am ddileu'r geiriau 'yn ddaliad sydd wedi ei feddiannu'. Mae gwelliant 6 yr un fath. Mae gwelliant 7 yn hunanesboniadol; yr ydym am ddefnyddio'r term 'Deyrnas Unedig' yn llawn, yn hytrach na 'DU'. Mae gwelliannau 8 a 9 yn egluro'n gliriach y bydd Gorchymyn y bwrdd ardollau'n cael ei ddirymu'n syth wedi cyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn.

[20] **David Lloyd:** Diolch, Weinidog. A oes gan unrhyw Aelod sylw i'w wneud?

[21] **Elin Jones:** Mae'n flin gennyf, Gadeirydd, ond anghofiais i droi'r dudalen.

[22] Mae gwelliant 10 yn cyfeirio at un o argymhellion y pwyllgor hwn, sef y dylem ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol wrth godi lefi ar ffermwyr yn uniongyrchol, yn hytrach na'r weithdrefn negyddol a nodir yn y Mesur arfaethedig.

[23] **David Lloyd:** Diolch, Weinidog. Aelodau, a oes gennych unrhyw sylwadau ar hynny? Gwelaf nad oes sylwadau. A yw'r Gweinidog eisiau ymateb i'r drafodaeth nas digwyddodd?

[24] **Elin Jones:** Na, dim diolch.

[25] **David Lloyd:** Symudwn felly i bleidlais ar welliant 1. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. Fe fyddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau eraill yn y grŵp yn ôl eu trefn yn nes ymlaen.

group are technical and improve the presentation of the proposed Measure. They also eliminate any ambiguity in the proposed Measure. The first amendment, as you see, only relates to the English version—there is no corresponding Welsh amendment—and it seeks only to insert the letter 'A'. Amendment 4 refers to the removal of the word 'private', in order to explain that there is no difference between a private dwelling-house or otherwise. So, we want to delete the term 'private' entirely. Once again, in order to avoid ambiguity, in amendment 5, we want to leave out the term 'a holding'. Amendment 6 is the same. Amendment 7 is self-explanatory; we want to use the term 'United Kingdom' in full, rather than 'UK'. Amendments 8 and 9 explain more clearly that the levy board Order is to be revoked immediately on this proposed Measure coming into force.

David Lloyd: Thank you, Minister. Does any Member wish to comment?

Elin Jones: I apologise, Chair, but I forgot to turn the page.

Amendment 10 refers to one of this committee's recommendations, which is that we should use the affirmative procedure in levying farmers directly, rather than the negative procedure as set out in the proposed Measure.

David Lloyd: Thank you, Minister. Members, do you have any comments on that? I see that there are none. Does the Minister wish to respond to the debate that did not happen?

Elin Jones: No, thank you.

David Lloyd: We will therefore move to a vote on amendment 1. The question is that amendment 1 be agreed to. We will move to a vote on the other amendments in the group later, as they appear in the list.

*Gwelliant 1: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 1: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 1.
Amendment 1 agreed.*

**Gweithgareddau Dynodedig (Gwelliant 2)
Designated Activities (Amendment 2)**

[26] **David Lloyd:** Mae'r grŵp hwn yn ymwneud â'r gweithgareddau dynodedig. Weinidog, a hoffech i welliant 2 yn eich enw gael ei gynnig? **David Lloyd:** This group relates to designated activities. Minister, would you like amendment 2 in your name to be moved?

[27] **Elin Jones:** Hoffwn, os gwelwch yn dda. **Elin Jones:** Yes, please.

[28] **David Lloyd:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Elin Jones. Galwaf ar y Gweinidog i siarad am welliant 2, a welir ar dudalen 1 y rhestr o welliannau sydd wedi'u didoli. **David Lloyd:** I move amendment in the name of Elin Jones. I call on the Minister to speak to amendment 2, which is on page 1 of the marshalled list.

9.10 a.m.

[29] **Elin Jones:** Mae'r gwelliant hwn yn un technegol, a gofynnaf am eich cefnogaeth iddo. **Elin Jones:** This is a technical amendment, and I would ask that you support it.

[30] **David Lloyd:** Diolch i'r Gweinidog. A hoffai'r Aelodau ddweud rhywbeth? Gwelaf nad oes sylwadau. Ni fydd angen i'r Gweinidog ymateb i drafodaeth nas cafwyd. Felly, symudwn ymlaen i bleidlais ar welliant 2. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. **David Lloyd:** Thank you, Minister. Do Members wish to say anything? I see that they do not. The Minister does not need to respond to a discussion that did not happen. Therefore, we will move to a vote on amendment 2. The question is that amendment 2 be agreed to.

*Gwelliant 2: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 2: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 2.
Amendment 2 agreed.*

**Datganiadau Niferoedd ac Amcangyfrifon (Gwelliant 3)
Returns and Estimates (Amendment 3)**

- [31] **David Lloyd:** Weinidog, a hoffech i welliant 3 yn eich enw gael ei gynnig? **David Lloyd:** Minister, would you like amendment 3 in your name to be moved?
- [32] **Elin Jones:** Hoffwn. **Elin Jones:** Yes.
- [33] **David Lloyd:** Cynigiaf welliant 3 yn enw Elin Jones, a galwaf ar y Gweinidog i siarad am y gwelliant, sydd ar dudalen 2 y rhestr o welliannau wedi'u didoli. **David Lloyd:** I move amendment 3 in the name of Elin Jones, and I call on the Minister to speak to the amendment, which is on page 2 of the marshalled list of amendments.
- [34] **Elin Jones:** Unwaith eto, yn dilyn trafodaeth a chasgliadau'r pwyllgor, yr ydym wedi cyflwyno gwelliant sy'n sicrhau cysondeb drwy gynnwys y cymal 'heb esgus rhesymol, â'. Bydd hynny'n sicrhau bod cysondeb o ran yr amddiffyniad yn y ddeddfwriaeth. **Elin Jones:** Again, as a result of the committee's discussions and conclusions, we tabled an amendment to ensure consistency. Therefore, the clause 'without reasonable excuse' is to be inserted. That will ensure consistency in relation to the legislation's provision for the defence of an individual.
- [35] **David Lloyd:** A hoffai unrhyw Aelod ddatgan rhywbeth? **David Lloyd:** Does any Member wish to say anything?
- [36] **Peter Black:** Is it in order to insert a split infinitive into legislation? **Peter Black:** A yw hi'n dderbyniol cynnwys berfenw hollt yn y ddeddfwriaeth?
- [37] **Elin Jones:** I will have to seek advice on that. **Elin Jones:** Bydd yn rhaid imi gael cyngor ynghylch hynny.
- [38] **Peter Black:** It is quite a serious point. **Peter Black:** Mae'n bwynt difrifol.
- [39] **David Lloyd:** All points raised here are serious. **David Lloyd:** Mae pob pwynt a godir yma yn un difrifol.
- [40] **David Lloyd:** Weinidog, a hoffech chi ymateb? Nid oes rhaid ichi ymateb yn awr. Mae Gwyn yn edrych fel pe bai yntau mewn penbleth. **David Lloyd:** Minister, would you like to respond? You do not have to respond now. Gwyn is looking perplexed.
- [41] **Elin Jones:** Mae fy mhenbleth i hyd yn oed yn fwy nag un Gwyn, o bosibl. Yr wyf yn edrych ar y fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd, ac nid wyf yn siŵr a yw'r un peth yn berthnasol yn y Gymraeg. **Elin Jones:** My confusion is even greater than Gwyn's, possibly. I am looking at the Welsh version at present, and I am not sure whether the same thing would apply to the Welsh version.
- [42] **David Lloyd:** Nac ydyw. **David Lloyd:** No.
- [43] **Peter Black:** The English version says 'fails, without reasonable excuse, to'— anyway, forget it. **Peter Black:** Mae'r fersiwn Saesneg yn dweud 'fails, without reasonable excuse, to'—ta beth, anghofiwch amdano.
- [44] **David Lloyd:** Gwyn, a allwch chi egluro? **David Lloyd:** Gwyn, can you explain?
- [45] **Mr Griffiths:** I fod yn fanwl gywir, yr '*infinitive*' yw '*to submit*' yn hytrach na '*fails,...to*', ac felly nid yw'n cael ei wahanu. **Mr Griffiths:** To be precise, the infinitive is 'to submit' rather than 'fails,...to', and so it is not split.

[46] **David Lloyd:** Diolch, Gwyn, am egluro hynny. A yw'r Gweinidog eisiau ymateb i'r drafodaeth?

David Lloyd: Thank you, Gwyn, for clearing that up. Does the Minister wish to respond to the discussion?

[47] **Elin Jones:** Nac ydw; nid wyf am ymateb i'r drafodaeth honno. [*Chwerthin.*]

Elin Jones: No, not to that discussion. [*Laughter.*]

[48] **David Lloyd:** Symudwn i bleidlais, felly. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3.

David Lloyd: We will, therefore, move to a vote. The question is whether amendment 3 should be agreed to.

*Gwelliant 3: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 3: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 3.
Amendment 3 agreed.*

[49] **David Lloyd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn i waredu gwelliant 4. Cafodd y gwelliant hwn ei drafod yng ngrŵp 1, ac mae'n ymddangos ar dudalen 2 y rhestr o welliannau wedi'u didoli. Weinidog, a hoffech i welliant 4 yn eich enw, ac yr ydych wedi ei drafod eisoes, gael ei gynnig yn ffurfiol?

David Lloyd: In accordance with the marshalled list of amendments, we shall move to dispose of amendment 4. This amendment was discussed with group 1, and it appears on page 2 of the marshalled list. Minister, would you like amendment 4 in your name, and which has already been discussed, to be formally moved?

[50] **Elin Jones:** Hoffwn.

Elin Jones: Yes.

[51] **David Lloyd:** Cynigiaf welliant 4 yn enw Elin Jones. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4.

David Lloyd: I move amendment 4 in the name of Elin Jones. The question is that amendment 4 be agreed to.

*Gwelliant 4: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 4: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 4.
Amendment 4 agreed.*

[52] **David Lloyd:** Yn unol â'r rhestr o

David Lloyd: In accordance with the

welliannau wedi'u didoli, symudwn i waredu gwelliant 5. Mae'r gwelliant hwn hefyd yng ngrŵp 1, ar dudalen 2 y rhestr o welliannau wedi'u didoli. Weinidog, a hoffech i welliant 5 yn eich enw gael ei gynnig yn ffurfiol?

marshalled list of amendments, we now move to dispose of amendment 5. This amendment is also in group 1, on page 2 of the marshalled list. Minister, would you like amendment 5 in your name to be formally moved?

[53] **Elin Jones:** Hoffwn.

Elin Jones: Yes.

[54] **David Lloyd:** Cynigiaf welliant 5 yn enw Elin Jones. Y cwestiwn yw a ddylid derbynu gwelliant 5.

David Lloyd: I move amendment 5 in the name of Elin Jones. The question is that amendment 5 be agreed to.

*Gwelliant 5: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 5: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 5.
Amendment 5 agreed.*

[55] **David Lloyd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn i waredu gwelliant 6. Mae'r gwelliant hwn hefyd yng ngrŵp 1, ar dudalen 2 y rhestr o welliannau wedi'u didoli. Weinidog, a hoffech i welliant 6 yn eich enw gael ei gynnig yn ffurfiol?

David Lloyd: In accordance with the marshalled list of amendments, we now move to dispose of amendment 6. This amendment is also in group 1, on page 2 of the marshalled list. Minister, would you like amendment 6 in your name to be formally moved?

[56] **Elin Jones:** Hoffwn.

Elin Jones: Yes.

[57] **David Lloyd:** Cynigiaf welliant 6 yn enw Elin Jones. Y cwestiwn yw a ddylid derbynu gwelliant 6.

David Lloyd: I move amendment 6 in the name of Elin Jones. The question is that amendment 6 be agreed to.

*Gwelliant 6: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 6: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 6.
Amendment 6 agreed.*

[58] **David Lloyd:** Yn unol â'r rhestr o

David Lloyd: In accordance with the

welliannau wedi'u didoli, symudwn i waredu gwelliant 7. Weinidog, a hoffech i welliant 7 yn eich enw gael ei gynnig yn ffurfiol?

marshalled list of amendments, we now move to dispose of amendment 7. Minister, would you like amendment 7 in your name to be formally moved?

[59] **Elin Jones:** Hoffwn.

Elin Jones: Yes.

[60] **David Lloyd:** Cynigiaf welliant 7 yn enw Elin Jones. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7.

David Lloyd: I move amendment 7 in the name of Elin Jones. The question is that amendment 7 be agreed to.

*Gwelliant 7: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 7: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 7.
Amendment 7 agreed.*

[61] **David Lloyd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn i waredu gwelliant 8. Weinidog, a hoffech i welliant 8 yn eich enw gael ei gynnig yn ffurfiol?

David Lloyd: In accordance with the marshalled list of amendments, we now move to dispose of amendment 8. Minister, would you like amendment 8 in your name to be formally moved?

[62] **Elin Jones:** Hoffwn.

Elin Jones: Yes.

[63] **David Lloyd:** Cynigiaf welliant 8 yn enw Elin Jones. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8.

David Lloyd: I move amendment 8 in the name of Elin Jones. The question is that amendment 8 be agreed to.

*Gwelliant 8: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 8: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 8.
Amendment 8 agreed.*

[64] **David Lloyd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn i waredu gwelliant 9. Weinidog, a hoffech i welliant 9 yn eich enw gael ei gynnig yn ffurfiol?

David Lloyd: In accordance with the marshalled list of amendments, we now move to dispose of amendment 9. Minister, would you like amendment 9 in your name to be

formally moved?

[65] **Elin Jones:** Hoffwn.

Elin Jones: Yes.

[66] **David Lloyd:** Cynigiaf welliant 9 yn enw Elin Jones. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9.

David Lloyd: I move amendment 9 in the name of Elin Jones. The question is that amendment 9 be agreed to.

*Gwelliant 9: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 9: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 9.
Amendment 9 agreed.*

[67] **David Lloyd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn i waredu gwelliant 10. Weinidog, a hoffech i welliant 10 yn eich enw gael ei gynnig yn ffurfiol?

David Lloyd: In accordance with the marshalled list of amendments, we now move to dispose of amendment 10. Minister, would you like amendment 10 in your name to be formally moved?

[68] **Elin Jones:** Hoffwn.

Elin Jones: Yes.

[69] **David Lloyd:** Cynigiaf welliant 10 yn enw Elin Jones. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 10.

David Lloyd: I move amendment 10 in the name of Elin Jones. The question is that amendment 10 be agreed to.

*Gwelliant 10: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 10: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 10.
Amendment 10 agreed.*

[70] **David Lloyd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn i waredu gwelliant 11. Weinidog, a hoffech i welliant 11 yn eich enw gael ei gynnig yn ffurfiol?

David Lloyd: In accordance with the marshalled list of amendments, we now move to dispose of amendment 11. Minister, would you like amendment 11 in your name to be formally moved?

[71] **Elin Jones:** Hoffwn.

Elin Jones: Yes.

[72] **David Lloyd:** Cynigiau welliant 11 yn enw Elin Jones. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 11.

David Lloyd: I move amendment 11 in the name of Elin Jones. The question is that amendment 11 be agreed to.

*Gwelliant 11: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 11: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Chapman, Christine
Graham, William
Jones, Helen Mary
Watson, Joyce

*Derbyniwyd gwelliant 11.
Amendment 11 agreed.*

[73] **David Lloyd:** Symudwn ymlaen i ddatgan pethau perthnasol ynglŷn â'r ffordd ymlaen. O dan Reol Sefydlog Rhif 23.40, os caiff Mesur arfaethedig ei ddiwygio yn nhrefodion Cyfnod 2 i fewnosod adran neu atodlen, neu i newid yn sylweddol unrhyw ddarpariaeth bresennol, caiff y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano baratoi memorandwm esboniadol diwygiedig. Credaf fod y gwelliannau a dderbyniwyd gan y pwyllgor hwn wedi newid yn sylweddol ar rywfaint o'r ddarpariaeth bresennol. Ar sail hyn, a yw'r Aelodau'n cytuno y dylai Llywodraeth y Cynulliad baratoi memorandwm esboniadol diwygiedig? Gwelaf fod Aelodau'n cytuno.

David Lloyd: We move on to make the relevant declarations on the way forward. Under Standing Order No. 23.40, if a proposed Measure is amended at Stage 2 proceedings so as to insert a section or schedule, or substantially alter any existing provision, the committee considering Stage 2 proceedings may request the Member in charge to prepare a revised explanatory memorandum. I believe that the amendments agreed by this committee have substantially altered some existing provisions. As such, do Members agree that the Assembly Government should prepare a revised explanatory memorandum? I see that Members are in agreement.

[74] Mae Rheol Sefydlog Rhif 23.41 yn datgan bod yn rhaid i unrhyw femorandwm esboniadol diwygiedig y gofynnir amdano o dan Reol Sefydlog Rhif 23.40 gael ei osod o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Cyfnod 3. Bydd Cyfnod 3 yn dechrau yfory. Caiff Aelodau eu hysbysu ynghylch y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau maes o law, a chaiff hynny ei gyhoeddi yn yr hysbysiad busnes. Bydd y clerics yn hysbysu Aelodau cyn gynted â phosibl ynghylch dyddiad cyfarfod nesaf y pwyllgor. Gyda'r sylwadau hynny, diolchaf i chi i gyd am eich presenoldeb ac am eich cyfraniadau hael, astrus a dwys. Diolch am y cyfieithu ar y pryd, a dyna ddiwedd y cyfarfod.

Standing Order No. 23.41 states that any revised explanatory memorandum requested under Standing Order 23.40 must be laid at least five working days before the date of the first meeting of the Assembly to consider Stage 3 proceedings. Stage 3 begins tomorrow. Members will be notified of the deadline for tabling amendments, and that will be published in the business notice. The clerk will inform Members as soon as possible of the date of the next committee meeting. With those comments, I thank you all for your attendance and for your significant, complex and detailed contributions. Thank you for the interpretation, and I declare the meeting closed.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 a.m.

The meeting ended at 9.20 a.m.